

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

John Griffiths AS
Cadeiryd
Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

SeneddTai@senedd.cymru

22 Hydref 2021

Annwyl John

Diolch am eich llythyr dyddiedig 14 Hydref ynglŷn â'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (LCM) ar y Bil Diogelwch Adeiladau.

Er bod y pwyllgor yn iawn i feddwl mai mater i'r Senedd yw deddfwriaeth sy'n dod o fewn ei chymhwysedd, mae proses yr LCM yn cydnabod y gall amgylchiadau godi lle bydd buddiannau amlwg o fynd ati mewn ffordd wahanol er budd pobl Cymru.

Mae Prif Weinidog Cymru wedi'i gwneud hi'n glir, er mai amddiffyn y setliad datganoli yw'r flaenoriaeth glinigol o hyd a deddfu yn y Senedd mewn meysydd sydd wedi'u datganoli ddylai fod ein blaenoriaeth gyffredinol, dylem fod yn agored i fynd ati mewn ffordd bragmataidd i ddefnyddio deddfwriaeth y DU er mwyn cyflawni amcanion Llywodraeth Cymru lle bo hynny'n briodol.

Rwy'n credu bod trychineb Grenfell a'r angen i ymateb i'r adolygiad annibynnol dilynol o reoliadau adeiladu wedi arwain at amgylchiadau o'r fath. Er bod y feirniadaeth ar y system yn Lloegr gan Y Fonesig Judith Hackitt yn ei hadroddiad yn fwy o broblem yno nag yng Nghymru, mae'r un mor berthnasol gan mai'r un ddeddfwriaeth graidd yw hi.

Mae Deddf Adeiladu 1984 a Rheoliadau Adeiladu 2010 wedi gosod y fframwaith ar gyfer adeiladau heb fawr o newidiadau ers iddynt ddod i rym. Er bod swyddogaethau wedi'u trosglwyddo i Weinidogion Cymru yn 2012, rydym wedi canolbwyntio hyd yn hyn ar newidiadau technegol megis systemau chwistrellu preswyl, gwahardd deunyddiau llosgadwy a pherfformiad ynni. Felly, mae'r Bil Diogelwch Adeiladau (BSB) yn gwneud y gwelliannau angenrheidiol i system y canfuwyd gwendidau ynddi mewn ffordd sy'n rhoi rheolaeth gadarn i Weinidogion Cymru a'r Senedd yn hytrach na rhywbeth sydd wedi'i osod arnom, fel rydych chi'n ei nodi.

Yn ogystal, bydd y Bil, sy'n debygol o gael cydsyniad brenhinol y flwyddyn nesaf, yn golygu y bydd modd cyflwyno'r newidiadau angenrheidiol i'r system rheoli adeiladu yn gynt nag a fyddai'n bosibl drwy Fil Diogelwch Adeiladau gan y Senedd.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae rhesymau da eraill dros fachu ar y cyfle y mae'r BSB yn ei gynnig. Mae'r system rheoli adeiladu'n seiliedig ar ddull cyffredin â Lloegr o ymdrin â chyrff rheoleiddio - Awdurdodau Lleol ac Arolygwyr Cymeradwy'r sector preifat. Mae'r diwydiant yn gweithredu bob ochr i'r ffin. Bydd y BSB yn goruchwyllo'r ddwy ochr yn fwy cadarn gyda disgwyliadau, am y tro cyntaf, o ran cymhwysedd a safonau perfformiad gan y Rheoleiddiwr Diogelwch Adeiladau yn Lloegr. Felly, mae'n hanfodol bod camau'n cael eu cymryd yng Nghymru er mwyn sicrhau lefel o gyffredinedd fel y gall sefydliadau a staff barhau i weithio yn y ddwy weinyddiaeth.

Bydd y Bil yn cyflwyno mwy o atebolrwydd i waith adeiladu, gyda set o ddeiliaid dyletswydd ym mhob rhan o'r broses adeiladu. Mae'r rhain yn bobl a fydd yn ysgwyddo cyfrifoldeb clir am y gwaith, a byddant yn gweithio ar system y DU a oruchwylir gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ar gyfer Rheoliadau Adeiladu (Dylunio a Rheoli) 2015 sef y rheoliadau CDM. Bydd hyn yn mynd i'r afael â beirniadaeth allweddol yn adolygiad Hackitt am y diffyg eglurder o ran pwy sydd â'r cyfrifoldeb a pha gymhwysedd sydd angen ei ddangos gan gleient, dylunydd a chontractiwr o ran ysgwyddo'r cyfrifoldebau hynny. Yn ein barn ni, byddai dull cyffredin, fel sy'n wir am y rheoliadau CDM, yn fuddiol ac ni ddylid ei oedi.

Drafftwyd y Ddeddf Adeiladu yn 1984, a bydd y BSB yn gwella'r fersiwn ddrafft, gan ddiweddarau ei gweithrediad, ei hiaith a'i hygyrchedd. Bydd y gwelliannau hyn yn helpu pawb sy'n defnyddio'r Ddeddf, ac er y gellid eu cyflwyno drwy ddeddfwriaeth Gymreig maen nhw'n newidiadau sy'n angenrheidiol yn ein barn ni, beth bynnag yw'r llwybr deddfwriaethol a ddewisir.

Mae'r diwydiant adeiladu'n paratoi ar gyfer y newidiadau y bydd y bil yn eu cynnig, o ran diwylliant, gallu a chymhwysedd. Bydd defnyddio'r bil fel cyfrwng newid yng Nghymru'n golygu y byddwn yn cael budd o'r egni sy'n cael ei gyfeirio at welliannau sy'n peri'r risg o gael ei wanhau pe na byddem yn bachu ar y cyfle i weithredu'n gynt.

I fod yn glir, mae pob darpariaeth sy'n berthnasol i Gymru yn y bil yn adlewyrchiad o'n barn ni o'r newidiadau angenrheidiol a beirniadaeth yr adroddiad annibynnol, ond sydd mewn ffordd yn briodol i'n hanghenion. Enghraifft dda o hyn yw ein penderfyniad i beidio â chreu corff rheoleiddio newydd fel y'i cynigiwyd i Loegr ond yn hytrach ymestyn swyddogaethau presennol awdurdodau lleol.

Mae'n bwysig nodi y bydd angen i'r bil gael is-ddeddfwriaeth er mwyn iddo gael effaith. Bydd y rheoliadau y byddwn yn eu cyflwyno yn dilyn hyn yn destun ymgynghoriad a gwaith ymgysylltu yn unol â'n hegwyddorion a'n gweithdrefnau.

Rwy'n ymwybodol bod angen i'r LCM ddelio â deddfwriaethau sy'n amrywio o bynciau syml i rai cymhleth a bod rhywbeth mor gynhwysfawr â'r BSB yn dechnegol ac yn gymhleth. Hoffwn gynnig cyfarfod â'r pwyllgor ac i fy swyddogion ddarparu cynifer o sesiynau briffio technegol ag y credai'r pwyllgor sydd eu hangen er mwyn cynnig y cyfle i ddeall manylion yr hyn y mae'r bil yn ei gynnig.

Papur 6

Yn ogystal, os byddai'r pwyllgor yn dymuno gofynnaf i fy swyddogion gynnwys y cyfiawnhad dros y pwerau dirprwyedig y mae'r bil yn eu cynnig. Byddaf yn hapus i gefnogi cynnig i'r Pwyllgor Busnes ar gyfer ymestyn y dyddiad cau ar gyfer adrodd ar yr LCM pe byddai hynny'n helpu'r Pwyllgor.

Yn gywir



Julie James AS/MS

Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change